

# Gwybodaeth ar gyfer teuluoedd wedi profedigaeth gan HSE

Cymru a Lloegr

Mae hwn yn fersiwn addas i'r we o'r daflen HSE52EW, a gyhoeddwyd ar 03/15

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth ynghylch beth sy'n digwydd mewn achos o farwolaeth yn y gwaith, neu mewn cysylltiad â gweithgareddau yn y gwaith. Fe'i bwriedir ar gyfer aelodau teuluoedd sydd wedi colli perthynas mewn digwyddiad o'r fath.

Gan y bydd ymchwiliad yn cychwyn yn syth bin i'r amgylchiadau, diben y daflen hon yw i'ch helpu yn y cyfnod anodd hwn trwy egluro:

- sut fydd yr ymchwiliad yn symud ymlaen, yn arbennig ynghylch rôl Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE);
- y prosesau a phenderfyniadau cyfreithiol a fydd yn dilyn;
- y gwasanaethau a chymorth a gynigir ichi gan sefydliadau eraill.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr wybodaeth yn y daflen hon, neu os ydych am wybod rhagor, cysylltwch naill ai â:

- y sawl sydd wedi'i rhoi neu anfon ichi; neu
- yr arolygydd sy'n arwain yr ymchwiliad, y nodwyd ei fanylion isod.

Enw'r Arolygydd:

Swyddfa HSE:

Ffôn:

E-bost:

## Yr ymchwiliad

Fel arfer mae rhan yr HSE yn yr ymchwiliad yn dechrau wedi i'r heddlu fynychu'r lleoliad, ac wedi hysbysu'r perthynas agosaf a Swyddfa'r Crwner.

Pwrpas yr ymchwiliad yw:

- canfod beth ddigwyddodd a pham;
- sicrhau y cymerir camau i'w atal rhag digwydd eto;
- penderfynu pa gamau cyfreithiol, os o gwbl, y dylid eu cymryd, gan gynnwys erlyn.

Mae'r heddlu ac arolygwyr HSE yn cydweithio o ddechrau'r ymchwiliad. Mae hyn oherwydd bod rhaid i'r heddlu ystyried y posibilid y cyflawnwyd trosedd o ddynladdiad esgeuluster corfforaethol neu esgeuluster gros, tra bod HSE yn chwilio am unrhyw fethiannau i gydymffurfio â deddfau iechyd a diogelwch.

Cyflwynir y trefniadau ar gyfer rheoli ymchwiliadau ar y cyd mewn dogfen o'r enw *Work-related deaths: A protocol for liaison* ([www.hse.gov.uk/pubns/wrtp1.pdf](http://www.hse.gov.uk/pubns/wrtp1.pdf)). Bydd yr heddlu'n arwain os yw dynladdiad yn cael ei ystyried. Os nad yw, bydd HSE yn arwain, er gall y sefyllfa newid wrth i'r ymchwiliad symud ymlaen.

Mae'r arolygwyr yn sylweddoli y bydd teuluoedd pobl sydd wedi marw mewn digwyddiadau cysylltiedig â gwaith yn awyddus i gael gwybodaeth, ac i wybod beth sy'n digwydd yn yr ymchwiliad. Gall yr heddlu benodi Swyddog Cyswllt y Teulu (FLO) er mwyn cwrdd â'r angen hwn, a bydd yr HSE'n cysylltu â chi naill ai trwy'r FLO neu ar wahân.

Byddwn yn cynnig dod i'ch gweld yn eich cartref neu gyfeiriad cyfleus arall cyn gynted ag y byddwch yn teimlo'n barod am hyn. Os nad yw ymweliad â'ch cartref yn ymarferol, er enghraifft oherwydd y pellter dan sylw, byddwn yn dal i'ch hysbysu ar y ffôn. Byddwn yn deall os na ddymunwch ein gweld, ond os newidiwch eich meddwl neu os newidia'ch amgylchiadau ar unrhyw adeg, cysylltwch â ni. Os oes gennych unrhyw wybodaeth rydych yn ystyried allai fod o gymorth i'r ymchwiliad, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod inni.

Mae'r staff HSE sy'n ymweld yn cario prawf hunaniaeth gyda llun (mae arolygwyr yn dal gwarantau). Gallwch ofyn am weld hwn er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch pwy sy'n cysylltu â chi a pham.

Byddwn yn eich hysbysu'n gyson o gynnydd ar gyfnodau pwysig yr ymchwiliad yn y ffordd sy'n fwyaf addas i chi. Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig ynghylch gwybodaeth, trafodwch hwy gyda'r arolygydd. Bydd yr amseru a chyfnodau rhwng ein cysylltiadau â chi'n dibynnu ar ffactorau megis cymhlethdod yr ymchwiliad yn dod, a faint o dystiolaeth mae'n rhaid ei chasglu a'i dadansoddi. Rydym yn anelu at osgoi oedi, ond gall gymryd hyd at flwyddyn, neu'n fwy ar brydiau, i ymchwiliad gyrraedd ei derfyn.

Rydym yn anelu at ddweud cymaint â phosibl wrthydych ag y gallwn, gan gynnwys beth rydym yn credu oedd yr achos a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd. Fodd bynnag, efallai bydd pethau na allwn eu hegluro'n fanwl gan fod rhaid inni osgoi rhagfarnu erlyniad posibl.

Bydd ein dull cysylltu cytunedig â chi'n parhau trwodd i gwest y Crwner ac unrhyw erlyniad iechyd a diogelwch, ond bydd yn dod i ben pan fydd y prosesau hyn wedi gorffen. Os ydych am wybod rhagor am ein polisi ar weithio gyda theuluoedd wedi profedigaeth, gweler [www.hse.gov.uk/enforce/victims.htm](http://www.hse.gov.uk/enforce/victims.htm)

## **Prosesau cyfreithiol**

Fel arfer mae'r prosesau cyfreithiol yn digwydd yn y drefn ganlynol:

- ymchwiliad a chwest y Crwner;
- achosion troseddol;
- achosion sifil yn delio ag iawndal.

### **Ymchwiliad a chwest y Crwner**

Mae gan Grwneriaid ddyletswydd i ymchwilio i farwolaethau a adroddwyd wrthynt os ymddengys:

- bod y farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol;
- bod achos y farwolaeth yn anhysbys;
- y bu farw'r unigolyn mewn carchar, gwarchodaeth yr heddlu, neu fath arall o leoliad cadw.

Pwrpas yr ymchwiliad yw sefydlu hunaniaeth y sawl sydd wedi marw, a sut, pryd a ble y bu farw. Mewn nifer sylweddol o ymchwiliadau, bydd y Crwner yn cynnal cwest i'r farwolaeth. Yn achos marwolaeth gysylltiedig â gwaith, mae'n debygol y bydd hyn o flaen rheithgor.

Gall Crwneriaid atal eu hymchwiliad, a gohirio unrhyw gwest cysylltiedig tan:

- y bydd unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu a/neu HSE wedi'i gwblhau; a
- bod unrhyw erlyniad dilynol am o ddynladdiad a/neu droseddau cysylltiedig ag iechyd a diogelwch wedi'i gwblhau.

Wedi i unrhyw achosion troseddol ddod i ben, bydd y Crwner yn ystyried a oes angen ailgychwyn ei ymchwiliad, neu a sefydlwyd y ffeithiau perthnasol (pwy fu farw, a sut, pryd a ble) yn ystod yr erlyniad.

Mewn achosion lle nad oes erlyniadau am ddynladdiad neu droseddau iechyd a diogelwch, cynhelir y cwest cyn gynted â phosibl ac fel arfer o fewn chwe mis o'r farwolaeth.

I gael rhagor o wybodaeth ar ymchwiliadau a chwestau, gweler [www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide](http://www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide).

### ***Achosion troseddol***

Os gweithredwyd yn groes i ddeddfau yna gall naill ai Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) neu'r HSE erlyn yn y llysoedd troseddol: y CPS ar gyfer troseddau cysylltiedig â dynladdiad ( esgeuluster gros a dynladdiad corfforaethol) ac unrhyw droseddau eraill; HSE ar gyfer deddfau iechyd a diogelwch a deddfau cysylltiedig yn unig. Cyn y gellir dwyn unrhyw erlyniad troseddol, mae'n rhaid bodloni meini prawf a phroffion yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn [www.cps.gov.uk/publications/code\\_for\\_crown\\_prosecutors](http://www.cps.gov.uk/publications/code_for_crown_prosecutors).

Y meini prawf allweddol yw:

- a oes digon o dystiolaeth i ddarparu disgwyliad realistig o gollfarn; ac
- a yw er lles y cyhoedd i erlyn

Mae'r wybodaeth ddilynol yn egluro'r broses ar gyfer achosion iechyd a diogelwch yn unig.

Gall yr erlyn sefydliadau (e.e. cwmnïau), unigolion, neu'r ddau. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod marwolaeth gysylltiedig â gwaith wedi digwydd yn golygu bod y gyfraith wedi'i thorri bob tro, nag un sy'n ddigon difrifol i warantu erlyniad.

Gwneir penderfyniad a ddylid erlyn wedi casglu'r yr holl dystiolaeth a'i phrofi yn ôl Datganiad Polisi Gorfodi'r HSE ([www.hse.gov.uk/pubns/hse41.pdf](http://www.hse.gov.uk/pubns/hse41.pdf)) sy'n disgwyl i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Bydd yr HSE yn eich hysbysu a fydd erlyniad cyn gynted ag y byddwn wedi gwneud y penderfyniad a hysbysu pwy bynnag sy'n cael ei erlyn. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am y cam nesaf, sef y dyddiad ar gyfer y gwrandawriad cyntaf mewn Llys yr Ynadon lleol. Cynhelir y gwrandawriad yn gyhoeddus, felly byddwch yn gallu mynychu. Ceir manylion ynghylch achosion llys yn [www.gov.uk/going-to-court-victim-witness](http://www.gov.uk/going-to-court-victim-witness).

### **Hawliadau am iawndal o dan gyfraith sifil**

Chi sydd i benderfynu a fyddwch yn hawlio iawndal, a chychwyn y broses. Gallwch gael cyngor ar hyn gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a chyfreithwyr.. Mae rhai undebau llafur yn darparu cymorth cyfreithiol i'w haelodau a'u teuluoedd. Bydd arnoch angen cyfreithiwr i ddilyn achos trwy'r llysoedd. Nid rôl HSE yw ceisio iawndal ar eich rhan.

### **Ffynonellau cymorth a gwybodaeth**

Os oes arnoch ei angen, mae'r sefydliadau cenedlaethol diylinol yn cynnig gwybodaeth a chymorth, neu gallant eich rhoi mewn cysylltiad â ffynonellau lleol eraill.

#### **Cyngor ar Bopeth**

Ffôn: 0844 411 1444

Gwefan: [www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)

#### **Cymorth i Ddiodefwyr**

Ffôn: 0945 30 30 900

Gwefan: [www.victimsupport.org.uk](http://www.victimsupport.org.uk)

#### **Cymdeithas y Cyfreithwyr**

Ffôn: 020 7242 1222

Gwefan: [www.lawsociety.org.uk](http://www.lawsociety.org.uk)

Mae gwefan yr HSE'n rhestru rhagor o sefydliadau sy'n darparu ystod o wasanaethau i deuluoedd wedi profedigaeth. Gellir gweld yr wybodaeth ar y tudalennau *Working with victims* yn [www.hse.gov.uk/enforce/victims.htm](http://www.hse.gov.uk/enforce/victims.htm).

Mae'r HSE'n dal gwybodaeth sydd ar gael trwy'r cofrestrau cyhoeddus ar ei wefan yn [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk). Mae'r wybodaeth yn cynnwys crynodebau o farwolaethau cysylltiedig â gwaith (gan gynnwys enwau'r bobl sydd wedi marw), manylion ynghylch sefydliadau ac unigolion a gollfarnwyd am doriadau ar ddeddfau iechyd a diogelwch, a chamau gorfodi eraill a gymerwyd gan HSE.

### **Gwneud cwyn am wasanaeth yr**

Os ydych yn anfodlon ar sut ydym wedi'ch trin ac yr hoffech gwyno am y lefel o wasanaeth, cyfeiriwch at ein gweithdrefn gwyno yn [www.hse.gov.uk/contact/complain-about-hse.htm](http://www.hse.gov.uk/contact/complain-about-hse.htm), gan ein bod yn croesawu cyfleoedd i unioni pethau a gwella'n perfformiad.